**Ffioedd Llys Adfer Dyled a Ffioedd Agri Advisor 2024**

**Hawliadau Bach – hawliad sy'n werth llai na £10,000 (Heb ei amddiffyn)**

| **Gwerth yr Hawliad** | **Ffi Llys** | **Ein Ffioedd** |
|---|---|---|
| Lan i £5,000 | £35 - £205 | £400 - £750 ynghyd â TAW |
| £5,001 - £10,000 | £455 | £750 - £1,500.00 ynghyd â TAW |

**Hawliadau Bach – hawliad gwerth llai na £10,000 (Amddiffynwyd)**

Ar ôl cyflwyno'r hawliad, os bydd amddiffyniad neu gyfaddefiad yn cael ei ffeilio, bydd yn rhaid ymdrin â'r mater ar sail amser â dreulir ar gyfradd fesul awr o rhwng £134.00 - £189.00 ynghyd â THAW (£160.80 - £226.80 gan gynnwys TAW) yn dibynnu ar y person sy'n delio â'r mater.

**Llwybr Cyflym ac Aml-Drac - hawliadau gwerth mwy na £10,000.**

**Ffi Llys**

Os yw'r hawliad yn werth mwy na £10,000 ond yn llai na £200,000 bydd ffi'r llys yn 5% o werth yr hawliad.

Os yw'r hawliad yn werth mwy na £200,000 bydd ffi'r llys yn £10,000.

**Ffioedd Agri Advisor**

Mae Llwybr Cyflym ac Aml-Drac yn fwy cymhleth na'r rhai sy'n dod o fewn y Trac Hawliadau Bach, felly bydd y gwaith uchod yn cael ei wneud ar gyfradd fesul awr o rhwng £189.00 - £225.00 ynghyd â THAW (£226.80 - £306.00 gan gynnwys TAW) yn dibynnu ar y cyfreithiwr sy'n delio â'r mater.

Unwaith y bydd dyfarniad wedi'i wneud, efallai y bydd angen cymryd camau gorfodi. Ymdrinnir â hyn fesul achos ac awgrymir dull gorfodi priodol. Bydd unrhyw waith a wneir i orfodi dyfarniad yn cael ei godi ar sail amser a dreulir fel yr uchod.

Yn ogystal â'r uchod, mae costau a thaliadau eraill a allai fod yn angenrheidiol i fynd ar drywydd hawliadau dyled fel ffioedd Bargyfreithiwr a ffioedd arbenigwyr. Bydd y ffioedd hynny'n amrywio yn dibynnu ar gymhlethdod a maint yr hawliad.